# Yr ASB yn cwblhau rhaglen PATH-SAFE pedair blynedd bwysig er mwyn gwella gwaith y DU o gadw gwyliadwriaeth ar glefydau a gludir gan fwyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd


Arweiniodd yr ASB raglen ymchwil beilot drawslywodraethol a thraws-sector ar y cyd â 65 a mwy o bartneriaid, gan gynnwys UKHSA, Defra, APHA, FSS, EA, VMD, DHSC a Cefas. Defnyddiodd y rhaglen ddull Iechyd Cyfunol, gan gydnabod bod cysylltiad cryf rhwng iechyd pobl, anifeiliaid a'r amgylchedd.

Diben y rhaglen PATH-SAFE, a gafodd ei lansio yn 2021, oedd ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o fynd i'r afael â phathogenau a gludir gan fwyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd a'u rheoli, yn ogystal â gwella bio-wyliadwriaeth ar draws system amaeth-fwyd y DU. Mae wedi darparu offer, data a phartneriaethau newydd sydd eisoes yn dylanwadu ar strategaethau cenedlaethol a'r ymateb i frigiadau o achosion.

## Prif lwyddiannau

- **Dulliau newydd o gadw gwyliadwriaeth:** Datblygodd y rhaglen ddulliau newydd o gadw gwyliadwriaeth, gan gynnwys monitro d?r gwastraff, sydd wedi helpu i amlygu'r risgiau sy'n gysylltiedig, er enghraifft, â gollyngiadau gwastraff ysbytai a lledaeniad pathogenau ac ymwrthedd gwrthficrobaidd i'r amgylchedd
- **Data a mewnwelediad cryfach:** Cafodd dros 8,300 o samplau a 12,500 o ynysyddion eu dilyniannu, ac mae rhywfaint o'r data hwn wedi helpu i greu llinellau sylfaen newydd, gan wella dealltwriaeth o bathogenau a gludir gan fwyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn gwahanol gyd-destunau fel da byw a bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio
- **Arloesedd ar raddfa fawr:** Crëwyd llwyfannau data genomig ar gyfer pathogenau fel Salmonela ac E-coli, ac maent bellach yn cael eu treialu ar draws y llywodraeth
- **Cydlynu gwell:** Gwnaeth y rhaglen PATH-SAFE gryfhau partneriaethau traws-sector a chroesawu rhanddeiliaid newydd o'r diwydiant a llywodraeth leol
- **Dylanwad strategol:** Mae'r rhaglen PATH-SAFE wedi cael ei chrybwyll mewn strategaethau mawr yn y DU, gan gynnwys Strategaeth Diogelwch Biolegol y DU, a'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ynghylch ymwrthedd gwrthficrobaidd ar gyfer 2024–2029, gan ddangos ei bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ehangach
- **Effaith gynnar y polisi:** Mae cynnwys y rhaglen mewn adroddiadau ymchwil a gwyliadwriaeth uchel eu proffil, fel yr adroddiad ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Milfeddygol a'r adroddiad ar Gadw Gwyliadwriaeth ar Werthiannau, yn cynnig tystiolaeth gynnar o'i heffaith bosib yn yr hirdymor

## Metrigau effaith o'r rhaglen PATH-SAFE




## Edrych tua'r dyfodol

Canfu gwerthusiad annibynnol fod y rhaglen wedi darparu gwerth cryf am arian, wedi helpu i leihau dyblygu ar draws sectorau, ac wedi gosod y sylfaen ar gyfer system wyliadwriaeth fwy integredig ac effeithlon. Mae'r gwerthusiad yn amlinellu nifer o argymhellion cyffredinol i wneud y mwyaf o effaith hirdymor y gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynyddu dulliau llwyddiannus drwy gyllid pwrpasol a mabwysiadu ehangach
- Rhannu offer, data a dysgu ar draws sefydliadau i gynyddu gallu
- Parhau i fonitro canlyniadau hirdymor a chydweithio ar draws sectorau
- Cefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â rhwystrau o ran rhannu data ar draws y llywodraeth drwy gyfrannu at ddatblygu canllawiau clir ar ddiogelu data, safonau metadata, cysylltedd, ac anonymeiddio
- Blaenoriaethu a chydlynu mentrau gwyliadwriaeth yn y dyfodol ar draws adrannau

Mae'r ASB wedi ymrwymo i gefnogi'r camau nesaf hyn a pharhau i hyrwyddo dull Iechyd Cyfunol cydgysylltiedig o gadw gwyliadwriaeth.

Gan adeiladu ar waith PATH-SAFE, mae'r ASB yn datblygu Rhaglen Gwyliadwriaeth Bwyd genedlaethol i gryfhau gwaith monitro diogelwch a dilysrwydd bwyd y DU. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar godi capasiti labordai, datblygu dulliau profi, cefnogi cydweithio trawslywodraethol, a defnyddio arloesedd a data i ddiogelu bioddiogelwch. Mae rhagor o fanylion ar gael ar dudalen we'r Rhaglen Gwyliadwriaeth Bwyd a thudalen cyfarfod mis Medi Bwrdd yr ASB.

> "Mae PATH-SAFE wedi dangos beth sy'n bosib pan fyddwn yn cydlynu ar draws sectorau gan rannu'r un genhadaeth. Erbyn hyn, mae gennym ni offer newydd, partneriaethau cryfach, a mewnwelediadau ymarferol sydd eisoes yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Y cam nesaf yw sicrhau bod y momentwm hwn yn parhau gyda buddsoddiad hirdymor a pherchnogaeth drawslywodraethol glir."
> Rick Mumford, Pennaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth ac Ymchwil yn yr ASB

Mae'r adroddiad gwerthuso llawn a'r deunyddiau ategol ar gael yma.